

Jane Hutt AS/MS
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JH-/01249/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

11 Ionawr 2021

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, dyddiedig 16 Rhagfyr, ynghylch deiseb P-05-1112: Helpwch Gymunedau yng Nghymru i Brynu Asedau Cymunedol. Gan fod trosglwyddo asedau cymunedol yn perthyn i'm portffolio i, fi sy'n ymateb i'ch gohebiaeth.

Nod y ddeiseb yw rhoi mesurau asedau o werth cymunedol Rhan 5 Pennod 3 Deddf Lleoliaeth 2011 ar waith. Penderfynodd Gweinidogion Cymru beidio â chyflwyno'r mesurau hyn yng Nghymru ar y pryd, ond yn hytrach adolygu'r mater yn rheolaidd. Gweithredwyd cynllun yn Lloegr yn 2012 â chanlyniadau cymysg iawn.

Mae pob awdurdod lleol yn Lloegr wedi gweithredu'r cynllun yn wahanol. Nid oes ffynhonnell wybodaeth ganolog ynghylch p'un a drosglwyddwyd asedau i berchnogaeth cymunedau yn sgil eu rhestru a/neu p'un a wnaeth achosion o drosglwyddo asedau yn llwyddiannus arwain at fudd cymunedol. Ond gwyddom y byddai cynllun asedau o werth cymunedol yn gosod baich ychwanegol ar ein hawdurdodau lleol, gan y byddai'n rhaid defnyddio adnoddau ychwanegol, sy'n golygu cost ychwanegol.

Yng Nghymru, mae trosglwyddo asedau cymunedol yn rhywbeth sy'n digwydd yn rheolaidd, er ein bod yn gwybod bod gan ein hawdurdodau lleol brosesau gwahanol iawn i'w gilydd. Mae'r sefyllfa yn wahanol iawn erbyn hyn i'r adeg pan basiwyd y Ddeddf Lleoliaeth. Mae caledi economaidd yn golygu bod cyrff cyhoeddus yn fwy tebygol o ystyried y posibilrwydd o drosglwyddo asedau mewn golau mwy ffafriol. Yn ddiweddar, gwnaethom waith ymchwil i brofiad grwpiau cymunedol (yn ogystal â chynghorau tref a chynghorau cymuned) a

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ysgwyddodd asedau cymunedol a'r problemau wrth eu trosglwyddo. Caiff hwn ei gyhoeddi yn y gwanwyn.

Mae Covid-19 a'r argyfwng sy'n parhau wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cymorth cymunedol i bobl Cymru, yn enwedig i'r rheini sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Credaf y gall asedau cymunedol fod yn ganolbwynt i weithredu cymunedol ac y byddant yn chwarae rhan yn y broses o ddod dros Covid-19 mewn ffordd deg a chyfiawn. Mae'r pandemig hefyd wedi darparu cyfleoedd i ailystyried sut rydym yn ymdrin â materion fel perchnogaeth gymunedol ar asedau.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Jane Hutt". The signature is written in a cursive style with a long horizontal stroke above the first letter 'J'.

Jane Hutt AS/MS

Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip